# Fforwm Rhanbarthol TrC – Gogledd a Canolbarth Cymru
# TfW Regional Forum – North and Mid Wales

## 04 Mawrth 2021

## Adroddiad o'r cyfarfod

## Meeting report

TRAFNIDIAETH CYMRU
TRANSPORT FOR WALES

# Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Gogledd a Chanolbarth Cymru

Cyfarfu'r fforwm ar 4ydd Mawrth 2021, 10:00 – 12:30

### Yn bresennol

## Aelodau'r Fforwm

| | | |
|---|---|---|
| Andrew Mytton | Swyddog Cludiant Cyhoeddus, Cyngor Sir Wrecsam | |
| Andrew Dawson | Rheolwr Trafnidiaeth, Cyngor Conwy | |
| Chris Wilson | Rheolwr Polisi a Strategaeth Trafnidiaeth, Cyngor Ceredigion | |
| Claire Williams | Swyddog Datblygu Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian | |
| David Beer | Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus | 10:55 – 11:45 |
| Jamie Sant | Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol, Rheilffordd Wrecsam Bidston | |
| Jim Jones | Twristiaeth Gogledd Cymru a Chyngor Busnes Mersi a'r Ddyfrdwy | |
| Karen Williams | Swyddog Rheilffyrdd Cymunedol Dyffryn Conwy ac Arfordir Gogledd Orllewin Cymru | |
| Lucas Stephens-Benjamin | Gweithrediadau Rheilffyrdd Trafnidiaeth Manceinion Fwyaf | |
| Michelle Clarke | Cydlynydd Prosiect Gogledd Cymru, Cymdeithas Trafnidiaeth Gymunedol | |
| Michelle Roles | Transport Focus | 10:55 – 11:45 |
| Nick Smith | Rheolwr Twf Rhanbarthol, Avanti West Coast | |
| Yr Athro Paul Spencer | Pennaeth Coleg (Gwyddorau Amgylcheddol a Pheirianneg) Prifysgol Bangor | |
| Peter Daniels | Swyddog Trafnidiaeth, Cyngor Sir Ddinbych | |
| Robin Tudor | Pennaeth Cysylltiadau Cyhoeddus a Chyfathrebu, Maes Awyr Lerpwl | |

## Trafnidiaeth Cymru - Roedd aelodau eraill o dîm TrC yn bresennol i hwyluso

| | | |
|---|---|---|
| Alexia Course | Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth | 10.05 – 10:20 |
| Carolyn Hodrien | Swyddog Ymgysylltu â'r Gymuned, Gogledd a Chanolbarth Cymru | |
| Geoff Ogden | Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol ac Ymgynghorol | 10:20 -10:40 |
| Jeremy Whitaker | Arweinydd Rhaglen | 10:40 – 10:55 |
| Lee Robinson | Cyfarwyddwr Datblygu Gogledd Cymru | |
| Lewis Brencher | Cyfarwyddwr Cyfathrebu | 10:55 – 11:45 |
| Lowri Joyce (Cadeirydd) | Rheolwr Rhanddeiliaid, Gogledd a Chanolbarth Cymru | 10:00 -10:05 |
| Mark Neate | Rheolwr Rhaglen | 12:15 – 12:25 |
| Ruth Wojtan | Rheolwr Rhaglen Metro Gogledd Cymru | |
| Wendy Jones | Rheolwr Gweithrediadau Glanhau | |

## Siaradwyr Allanol

| | | |
|---|---|---|
| Tracey Messner | Rheolwr Materion Cyhoeddus, Network Rail | 11:45 – 12:05 |
| Andy Scogings | Pennaeth Cynllunio Strategol, Network Rail | 11:45 – 12:05 |
| James Jackson | Cyfarwyddwr Rhaglen y Diwydiant, Network Rail | 11:45 – 12:05 |

| | | |
|---|---|---|
| Helen Hodgson | Noddwr, Network Rail | 12:05 – 12:15 |

## Ymddiheuriadau

| | |
|---|---|
| Ann Elias | Swyddog Trafnidiaeth Strategol, Partneriaeth Tyfu Canolbarth Cymru – Trafnidiaeth Strategol |
| Andrew Saunders | Rheolwr Strategaeth Mynediad Wynebol, Maes Awyr Manceinion |
| Ceri Hanson | Rheolwr Uned Trafnidiaeth Integredig, Cyngor Sir y Fflint |
| Ceri Taylor | Rheolwr Materion Cyhoeddus TrC |
| David Jones | Rheolwr Datblygu'r Rheilffyrdd, Dinas-Ranbarth Lerpwl |
| Dave Whall | Stena Line |
| Dylan Gallanders | Cymorth ac Ymgysylltu Gweithredol, Cymdeithas Cludiant Cymunedol |
| Gerard Rhodes | Gwasanaeth Trafnidiaeth Strategol, Cyngor Caer a Gorllewin Swydd Gaer |
| Geraint Morgan | Rheolwr Rheilffyrdd Cymunedol, De TrC |
| Gethin Jones | Rheolwr Cefnogi Busnes, TrC |
| Hugh Evans | Pennaeth Rheilffyrdd Cymunedol, TrC |
| Iwan Cadwaladr | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iwan Prys-Jones | Rheolwr Rhaglen, Bwrdd Economaidd Gogledd Cymru |
| Katie Powis | Rheolwr Rhanddeiliaid, TrC Canolbarth a De-orllewin Cymru |
| Lois Park | Uwch Reolwr Rhanddeiliaid Rheilffyrdd TrC |
| Mark Barton | Irish Ferries |
| Melanie Lawton | Rheolwr Rheilffyrdd Cymunedol, Gogledd TrC |
| Mike Learmond | Uwch Reolwr Datblygu, Cymru, Ffederasiwn Busnesau Bach |
| Owain Roberts | Northern Rail |
| Paul Williamson | RNID |
| Sean Croshaw | Rheolwr Rheilffyrdd Strategol, Trafnidiaeth Manceinion Fwyaf |
| Rhian Wyn Williams | Cyngor Gwynedd |
| Steph Smith | Uwch Swyddog Trafnidiaeth Gyhoeddus a Chymunedol, Cyngor Conwy |
| Sam Hadley | Network Rail |
| Tony Caine | Rheolwr Traffig a Theithio, Cyngor Sir Powys |
| Val Hawkins | Prif Weithredwr, Twristiaeth Canolbarth Cymru |
| Vincent Goodwin | Swyddog Teithio, Cyngor Sir Powys |

## Nodyn gan y Cadeirydd, Lowri Joyce

*"Unwaith eto, roedd hi'n wych croesawu a chlywed gan ein haelodau, sy'n cynyddu'n gyson o ran nifer. Hoffwn ddiolch i'n cyflwynwyr a roddodd y wybodaeth ddiweddaraf am Gontract Gwasanaethau Rheilffyrdd Cymru a'r Gororau, Gweledigaeth TrC ar gyfer 2021/22, Pris Tocynnau yn yr Adferiad, a throsolwg o'r gwaith a gwblhawyd yn y Bermo a Bow Street. Yn ogystal â chlywed am y diweddariadau pwysig hyn, cafodd yr aelodau gyfle i gymryd rhan mewn trafodaeth drwy sesiwn holi ac ateb gan Banel Network Rail, a gweithdy rhyngweithiol ar Adeiladu Ymddiriedaeth Teithwyr mewn Trafnidiaeth Gyhoeddus ar ôl COVID. Hoffwn ddiolch i'r aelodau a gyfrannodd hefyd at drafodaethau'r gweithdai sy'n ein helpu i lunio dyfodol y ddarpariaeth drafnidiaeth yn ystod y cyfnod heriol hwn. Diolch i chi am eich amser a'ch cyfraniadau amhrisiadwy.*

## Agenda

### 1. Cyflwyniadau ac Ymddiheuriadau

Croesawodd Lowri Joyce aelodau'r fforwm i bedwerydd cyfarfod Fforwm Rhanbarthol Cymru a'r Gororau. Cyflwynodd Nichole fformat y cyfarfod, gan gynnwys defnyddio Mentimeter, ac atgoffodd bawb o'r negeseuon Teithio'n Saffach a rheolau Llywodraeth Cymru sydd ar waith o hyd ledled Cymru mewn perthynas â phandemig Covid-19.

### 2. Uchafbwyntiau TrC a'r dull newydd o weithredu ar gyfer rheilffyrdd Cymru a'r Gororau

Rhoddodd Alexia Course, Cyfarwyddwr Gweithrediadau Trafnidiaeth (TrC), drosolwg o lwyddiannau TrC dros y ddwy flynedd diwethaf. Rhoddodd Alexia'r wybodaeth ddiweddaraf am lwyddiannau allweddol, cerbydau newydd, gwelliannau i wasanaethau cwsmeriaid ac agor Gorsaf Bow Street ar Reilffordd y Cambrian yn ddiweddar, rhwng gorsafoedd rheilffordd y Borth ac Aberystwyth. Roedd y cyflwyniad byr hefyd yn trafod perchnogaeth a thrawsnewid Llinellau Craidd y Cymoedd ers mis Awst 2020, yn ogystal â strwythur a chontract sefydliadol newydd TrC gyda Llywodraeth Cymru.

### 3. Gweledigaeth TrC ar gyfer 2021/22

Rhoddodd Geoff Ogden, Cyfarwyddwr Gwasanaethau Corfforaethol (TrC), drosolwg o'r newidiadau a phwysigrwydd trafnidiaeth aml-ddull ar gyfer y dyfodol. Trafododd Geoff y cyfrifoldebau a roddwyd i TrC gan Lywodraeth Cymru a sut mae'r rhain yn ffurfio amcanion strategol, cynllun busnes, strategaeth drafnidiaeth a chynllun cyflawni TrC ar gyfer y flwyddyn. Bydd gwaith yn y dyfodol yn dod â rhanddeiliaid at ei gilydd i greu system drafnidiaeth integredig ac aml-ddull ar gyfer Cymru. Gwahoddir aelodau'r Fforwm hefyd i fynegi eu barn.

Soniodd Jim Jones, Cyfarwyddwr Twristiaeth Gogledd Cymru, am ymgynghoriad yr Adran Drafnidiaeth ynghylch tri opsiwn i leihau tagfeydd o amgylch coridor Castlefield ym Manceinion. Rhoddodd Lee Robinson drosolwg o'r ymgynghoriad a chadarnhaodd y byddai TrC yn ymateb i gefnogi'r opsiwn i gadw cysylltiad uniongyrchol â maes awyr Manceinion o ogledd a chanolbarth Cymru.

### 4. Pris Tocynnau yn yr Adferiad

Trafododd Jeremy Whitaker, Arweinydd Twf y Rhwydwaith (TrC) y gostyngiad yn nifer y teithwyr sy'n defnyddio'r rhwydwaith trafnidiaeth gan ystyried pandemig Covid-19 sy'n parhau. Esboniodd Jeremy yr effaith y mae hyn wedi'i chael ar brisiau tocynnau o fis Ionawr 2021 ymlaen. Rhoddodd Jeremy drosolwg o strategaeth ranbarthol gan Network Rail ar newidiadau i brisiau tocynnau wedi'u rheoleiddio, cyfleoedd prisio tactegol ar gyfer byd ôl Covid-19 a datblygu cynnyrch newydd i annog pobl i fynd yn ôl ar y rhwydwaith pan fydd hi'n ddiogel gwneud hynny.

Nododd Claire Williams, Swyddog Datblygu Partneriaeth Rheilffordd y Cambrian, fod pris Cerdyn y Cambrian wedi codi'n sydyn dros y blynyddoedd diwethaf heb ymgynghori, a bod nifer y bobl sy'n defnyddio'r cerdyn wedi gostwng yn sylweddol. Awgrymodd Jeremy Whitaker fod pris y cerdyn wedi'i rewi er mwyn iddynt gael ei adolygu a gofynnodd a fyddai Clare yn gallu rhannu ei hymchwil i'r defnydd o Gerdyn y Cambrian.

Gofynnodd Peter Daniels, Swyddog Trafnidiaeth, Cyngor Sir Ddinbych, a fydd staff rheilffyrdd a'r cynlluniwr llwybrau yn y dyfodol yn cyfeirio pobl at fysiau mwy cyfleus yn hytrach na threnau pellter hirach. Cadarnhaodd Jeremy Whitaker y byddai'r system cynllunio llwybrau i

bob pwrpas yn cydnabod gwasanaeth Traws Cymru fel gwasanaeth rheilffordd. Fodd bynnag, ni fyddai'r strwythurau prisiau ar gyfer gwasanaethau lleol yn newid.

5. **Gweithdy: Meithrin Ymddiriedaeth Teithwyr mewn Trafnidiaeth Gyhoeddus ar ôl COVID**
Rhoddodd David Beer, Uwch Reolwr Cymru, Transport Focus, y wybodaeth ddiweddaraf am ymchwil Transport Focus a gwybodaeth am deithio gan deithwyr yn y dyfodol, gan ystyried pandemig Covid-19. Eglurodd David fod Transport Focus wedi parhau i arolygu teithwyr a bod y canlyniadau yn amlygu rhai o'r heriau, gan gynnwys y canfyddiad o ddiogelwch a glanweithdra ar drafnidiaeth a'r newid mewn agweddau tuag at deithio ar gyfer hamdden a chymudo at ddibenion gwaith/busnes.

Arweiniodd Lewis Brencher ymlaen o'r cyflwyniad gan Transport Focus a darparodd ail sesiwn gweithdy yn y fforymau ar sail yr adborth. Tynnodd aelodau'r panel sylw at dair thema allweddol yn ystod y fforwm diwethaf. Edrychodd y sesiwn ar y themâu hyn yn fwy manwl ac ar Sense Maker fel arf arolygu. Eglurodd Lewis fod croeso bob amser i sylwadau pellach ac y gellir cysylltu ag ef drwy lewis.brencher@tfw.wales

Thema 1: Deall **ofn** a'r camau ymarferol y gallwn eu cymryd i leihau hyn

Thema 2: Edrych ar gynlluniau **prisiau** posibl a beth allai fod yn addas ar gyfer anghenion teithio yn y dyfodol

Thema 3: Edrych ar **hyblygrwydd**; beth yw'r 'normal newydd' a sut gall trafnidiaeth addasu i gyd-fynd â hynny

Roedd y trafodaethau yn y grwpiau bach yn cynnwys:

- Mae'r negeseuon hyd yma gan Lywodraeth y DU wedi dweud wrth bobl am beidio â defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, felly mae angen i ni ystyried sut rydym yn mynd i'r afael â'r neges honno ac yn profi ei bod yn ddiogel, pan fydd yr amser yn iawn.
- Bydd cyfyngiadau'n parhau i'r dyfodol, ac ni fydd pethau'n ôl fel yr oedden nhw erbyn mis Mehefin. Bydd gwisgo masg a chael pobl fel goruchwylwyr yn bresennol ar y trên yn rhoi'r argraff ei fod yn amgylchedd diogel.
- Ehangu tocynnau Multiflex y tu allan i rwydwaith Llinellau Craidd y Cymoedd, gan gynnwys y Gororau
- Mae angen cysylltiad rhwng y farchnad hamdden a hyrwyddiadau eraill, grwpiau llai a thripiau i gyplau.
- Mae angen cydgysylltu rhwydweithiau trafnidiaeth. Mae angen gwneud mwy i gysylltu trafnidiaeth aml-ddull, fel bod opsiynau i bobl ei defnyddio. Er enghraifft, os oes gwasanaeth bws da ond gwasanaeth trên gwael, mae pobl yn llai tebygol o ddefnyddio trafnidiaeth gyhoeddus yn gyffredinol.
- Mae angen gwella trafnidiaeth gymunedol, yn enwedig i bobl ag anabledd a allai weld mai dyma'r unig ddewis fforddiadwy.

Bydd adborth y gweithdai yn cael ei gasglu ynghyd mewn cyfres ehangach o ymgynghoriadau y mae TrC yn eu cynnal yn y Panel Cynghori ac fel rhan o'i arolwg Sense Maker cyhoeddus. Mae sefydlu ymgyrch bosibl ar bwysigrwydd y materion hyn eisoes yn cael ei drafod.

6. **Sesiwn Holi ac Ateb Panel Network Rail**
Gwahoddodd Tracey Messner, Rheolwr Materion Cyhoeddus, Network Rail, gwestiynau ac adborth ar ddatblygiad y rheilffyrdd yng Nghymru a'r Gororau a gofynnodd i aelodau'r panel roi eu barn am Network Rail a sut y gallai wella gwasanaethau ar gyfer Gogledd a Chanolbarth Cymru.

Gofynnodd David Beer a ellid rhoi rhagor o fanylion am yr amserlen ar gyfer buddsoddi mewn seilwaith yng Ngogledd Cymru a Gogledd Orllewin Lloegr. Awgrymodd Andy Scogings, Pennaeth Cynllunio Strategol, Network Rail, fod optimeiddio cyflymder llinellau yn digwydd ac amlinellodd rai materion penodol. Trafododd ymyriadau eraill y byddai Network Rail yn gweithio gyda Trafnidiaeth Cymru arnynt dros y 10 mlynedd nesaf.

Gofynnodd Jamie Sant a oedd astudiaeth ddichonoldeb llinyn Shotton o 2002 yn dal i gael ei chynnig ar gyfer gwelliannau i'r rheilffordd. Awgrymodd James Jackson, Cyfarwyddwr Rhaglen y Diwydiant, Network Rail, fod cysylltedd yn Shotton yn bwysig a soniodd am rai o'r cynigion eraill sy'n cael eu cyflwyno o amgylch Shotton.

Gofynnodd Claire Williams am ddiweddariad ar y gwaith signalau ar Reilffordd y Cambrian. Rhoddodd James Jackson ddiweddariad ar lafar ar y gwaith a oedd wedi'i gynllunio a'r manteision y bydd defnyddwyr y rheilffordd yn eu gweld, gan gynnwys sut bydd y gwaith signalau yn cyd-weddu â threnau newydd.

7. **Meddiant yn y Bermo**
Rhoddodd Helen Hodgson, Noddwr, Network Rail, y wybodaeth ddiweddaraf i'r aelodau am y gwaith sydd eisoes wedi'i gwblhau ar draphont y Bermo a'r gwaith sydd wedi'i gynllunio ar gyfer y dyfodol.

**Gorsaf Bow Street**
Cyflwynodd Mark Neate, Rheolwr y Rhaglen (TrC), fanylion y gwaith a gwblhawyd yng ngorsaf Bow Street, gan gynnwys yr agoriad rhithiol a gynhaliwyd ar 1af Mawrth 2021.

8. **Unrhyw fater arall**
Nododd Lowri Joyce fod ymgynghoriad Parc Cenedlaethol Eryri yn mynd rhagddo ac anogwyd aelodau sydd â diddordeb i gymryd rhan.

## Camau Gweithredu

Codwyd y camau gweithredu isod yn ystod y fforwm a rhoddir sylw iddynt cyn y Fforwm Rhanbarthol nesaf lle bo hynny'n bosibl.

| Cam gweithredu | Beth fydd yn cael ei wneud? |
|---|---|
| Dim wedi'u cofnodi | |
| | |

## Uchafbwyntiau sgwrs ddigidol y fforwm

Dyma oedd uchafbwyntiau'r sgwrs o fewn swyddogaeth sgwrsio'r Fforwm:

"Mae'n wych cael gwasanaethau'n rhedeg fel y gwyddom ar linell Halton Curve, ond er iddi fod yn weithredol ers bron i 2 flynedd, yn anffodus mae'r strwythurau tocynnau ar gyfer gwasanaethau i Faes Awyr Lerpwl yn dal yn anghystadleuol oherwydd bod y tocyn bws ychwanegol anghywir yn cael ei ddefnyddio (pris tocyn cyswllt bws 3 milltir ar hyn o bryd sy'n uwch na phris y tocyn rheilffordd). Ydyn ni'n gwybod pryd bydd y problemau yn ymwneud â'r strwythur prisiau yn cael eu datrys i helpu i'w gwneud yn atyniadol teithio i Faes Awyr Lerpwl ar drên gyda TrC? "

"Roeddem wedi cael gwybod y byddai'r mater hwn yn cael ei ddatrys yn gynnar eleni, felly byddwn yn holi'r tîm beth yw'r diweddaraf, gan eu bod wedi bod yn gweithio ar ddatrys hyn."

"Gaf i wybod a yw TrC yn cyflwyno ymateb ffurfiol i Ymgynghoriad Tasglu Adfer Manceinion yr Adran Drafnidiaeth? Ydych chi'n aelod o'r Tasglu – neu a fyddwch chi'n gofyn am gael bod yn aelod?"

"Byddwn, mi fyddwn yn ymateb. Bydd Rheilffyrdd TrC Cyf hefyd yn ymateb. Mae croeso i chi gysylltu â mi wedyn".

"Allaf i holi a yw TrC wedi cael cyfarwyddyd i gynyddu gwasanaethau gan Lywodraeth Cymru a phryd gallwn ni ddisgwyl 1 trên yr awr rhwng Gogledd Cymru a'r Maes Awyr eto? Hefyd, a fyddech chi'n gallu rhannu unrhyw ffigurau am y niferoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth ar hyn o bryd a faint o griw sydd ar gael."

"Yn sicr, gallaf rhannu'r data hynny â chi. Rydyn ni'n adolygu'r amserlen yn rheolaidd – rwy'n credu mai'r garreg filltir hollbwysig nesaf i ni fydd ysgolion yn ailagor a'r Pasg"

"Diolch yn fawr am y gwahoddiad heddiw, a diolch yn fawr i'r cyflwynwyr, gwybodaeth ardderchog i rywun sy'n eithaf newydd i TrC. Mae gennyf gyfarfod arall am 12.30. Edrychaf ymlaen at ymuno â chi i gyd eto. Cadwch yn ddiogel.

"Mae Bow Street yn edrych yn wych – da iawn chi."

## Y Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol Nesaf

Bydd Fforwm Rhanddeiliaid Rhanbarthol nesaf Gogledd a Chanolbarth Cymru yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 11eg Mai 2021. Bydd y cyfarfod yn cael ei gynnal ar-lein ar lwyfan Microsoft Teams rhwng 10:00 a 12:00.